NICE National Institute for Health and Care Excellence

Profion proffilio tiwmor i lywio penderfyniadau cemotherapi cynorthwyol yn ystod camau cynnar canser y fron

19 Rhagfyr 2018

Mae NICE wedi asesu pum prawf proffilio tiwmor (EndoPredict [EPclin score], Ocotype DX Breast Recurrence Score, Prosigna, MammaPrint and IHC4+C) er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn.

Mae'n bosibl y bydd angen i rai pobl sydd â chanser y fron cynnar a datblygedig yn lleol gael triniaeth ychwanegol ar ôl iddynt gael llawdriniaeth. Defnyddir adnoddau ar-lein (megis PREDICT neu'r Nottingham Prognostic Index) er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynglŷn â pha driniaeth a gynigir ar ôl cael llawdrniaeth, yn seiliedig ar nodweddion y canser. Weithiau, nid yw'n glir p'un a oes angen cemotherapi, ac mae profion proffilio tiwmor yn gallu darparu gwybodaeth er mwyn helpu pobl i benderfynu a ddylid cael cemotherapi ai peidio.

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio EndoPredict (EPclin score), Oncotype DX Breast Recurrence Score a Prosigna er mwyn helpu'r unigolyn a'i glinigydd i benderfynu p'un a dylid cael cemotherapi os oes risg ganolradd y bydd y canser yn dychwelyd mewn mannau eraill o'r corff. Gellir defnyddio'r profion ar bobl sydd â chanser y fron sy'n dderbynyddion estrogen positif, derbynyddion ffactor twf epidermaidd dynol 2 negyddol a nodau lymff negyddol (gan gynnwys clefyd micrometastatic).

Ni argymhellir defnyddio MammaPrint gan nad yw'n gost effeithiol. Ni argymhellir defnyddio IHC4+C gan nad oes digon o dystiolaeth i ddangos bod y prawf yn ddibynadwy.

ISBN: 978-1-4731-3129-3

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights